Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bro Tegid**
**Heol Tegid**
**Y Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7BN**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bro Tegid, sydd wedi ei lleoli yn nhref Y Bala, yn gwasanaethu'r dref a'r ardal wledig o'i chwmpas. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 95 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Derbynnir hwy i'r ysgol yn y Medi wedi iddynt gael eu pedwerydd pen-blwydd. Mae'r niferoedd disgyblion wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Daw 71% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf; 1% o gefndir lleiafrifol ethnig a'r gweddill o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith cyfathrebu. Y Gymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol. Cynrychiolir amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac ni ystyrir bod yr ardal yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Saith y cant o'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodir 27% o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig gyda 1% ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Tegid yw £3,254 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 71 uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Roedd y pennaeth i ffwrdd ar salwch tymor hir yn ystod yr arolygiad ac mae pennaeth ysgol gyfagos yn gweithredu fel pennaeth dros dro ers dechrau'r tymor presennol.

Penodwyd y pennaeth yn 1996.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac yn cyflawni safonau da yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- llwyddiant yr ysgol mewn datblygu dwyieithrwydd o oed cynnar;
- bod yr addysgu'n gyffredinol dda ar draws yr ysgol; a
- bod ethos teuluol, gofalgar sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan yr athrawon a'r staff ategol rolau clir sy'n cael eu cyflawni'n gyson dda;
- bod y pennaeth mewn gofal â gweledigaeth glir sy'n cael ei rhannu hefo'r staff; a
- bod y llywodraethwyr a staff yr ysgol yn awyddus i gydweithio i adnabod elfennau i'w datblygu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 gynllunio'n fwy bwriadus er mwyn datblygu ymhellach addysg ynglŷn â chynaliadwyedd;

A2 rhannu arfer dda'r addysgu ar draws yr ysgol;

A3 mireinio prosesau'r ysgol ar gyfer tracio cynnydd ac adnabod carfannau disgyblion ar gyfer eu targedu;

A4 defnyddio prosesau monitro a hunanarfarnu'r ysgol yn fwy effeithiol ar gyfer gosod blaenoriaethau; a

A5 datblygu ymhellach rôl y staff a'r Llywodraethwyr yn y broses o hunanarfarnu ac o osod targedau heriol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar ymdrechion yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, nad oes fawr o ystod mewn gallu mwyafrif helaeth o'r plant yn y medrau sylfaenol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd. Mae cyflawniad y disgyblion sydd o gartrefi di-Gymraeg yn y Gymraeg a dwyieithrwydd yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae canlyniadau diwedd cyfnod allweddol 1 ar gyfer 2010 yn uwch na'r awdurdod a Chymru ym mhob maes, gyda chanlyniadau Cymraeg a gwyddoniaeth yn 100%. Rhydd hyn yr ysgol yn uwch na'r teulu ac ymysg y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn y pynciau hyn. Mae'r canlyniadau mewn mathemateg yn is na'r teulu eleni ac wedi bod felly dros gyfnod tair blynedd.

Mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar gyfer 2010 mewn gwyddoniaeth yn uwch na'r awdurdod, y teulu a Chymru. Mae'r canlyniadau Saesneg yn is na'r awdurdod a Chymru. Mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg yn sylweddol is na'r teulu, yr awdurdod, a Chymru. Nid yw'r ysgol yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn gwyddoniaeth, ond ymhlith y 50% isaf mewn Cymraeg a Saesneg a'r 25% isaf mewn mathemateg.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig yn y ddau gyfnod allweddol yn uwch na'r teulu, yr awdurdod a Chymru mewn gwyddoniaeth ac yn sylweddol uwch yn y Gymraeg. Yn ystod y cyfnodau arsylwi yn y dosbarthiadau mae'r disgyblion mwyaf galluog yn gweithio ar lefelau priodol ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig ymestynnol.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a gallu. Mae cynnydd amlwg hefyd yng ngwaith y disgyblion sydd wedi derbyn cymorth gyda'u darllen.

Nid oes patrwm arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn dros gyfnod o bedair blynedd.

Gwelir cynnydd da yng nghyflawniad disgyblion yn gyffredinol yn eu gwaith, eu llyfrau ac yn y sesiynau arsylwi.

Mae medrau cyfathrebu'r disgyblion yn gyffredinol dda gydag enghreifftiau o waith estynedig o safon uchel yn y ddwy iaith ac at wahanol gynulleidfaoedd. Mae gan bron pob disgybl fedrau cyfathrebu a darllen da iawn. Maent yn cyfathrebu'n hyderus ac yn eglur o oedran cynnar.

Gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol o rifedd ar draws y cwricwlwm. Nid yw data diwedd y ddau gyfnod allweddol yn adlewyrchu'r safonau mewn rhif a welir yn llyfrau disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion drwy'r ysgol yn gweithio yn annibynnol gan wneud defnydd da o'u hamser a chadw ar dasg. Maent yn arddangos brwdfrydedd ac agwedd bositif tuag at ddysgu.

Mae datblygiad y Gymraeg a meithrin dwyieithrwydd yn gryfder yn yr ysgol hon gyda phob disgybl yn dilyn rhaglen astudio mamiaith. Mae'r disgyblion o gartrefi Di-Gymraeg yn datblygu i fod yn rhugl o fewn byr amser ac mae'r cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae gan bron bob plentyn ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta bwyd iach ac i gadw'n heini.

Mae lefel presenoldeb y dysgwyr ar gyfartaledd dros dair blynedd yn 94.7%, sy'n well na'r canran sirol a chenedlaethol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datgan eu bod yn hapus yn yr ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac nad ydynt yn ymwybodol bod unrhyw fwlio yn digwydd. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn rhagorol ac maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol.

Gall bron bob un o'r disgyblion weithio'n annibynnol ac yn weithredol yn y gwersi. Maent yn gwneud penderfyniadau ar sut i wneud eu gwaith a chyflwyno eu canfyddiadau. Dengys yr holiaduron eu bod yn mwynhau'r gwersi. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos lefel dda o gymhelliant a dyfalbarhad yn eu gwaith. Mae llawer ohonynt yn datblygu yn eu dealltwriaeth o'r targedau i weithio tuag atynt ond nid yw hyn wedi treiddio i'r un graddau ar draws yr ysgol.

Mae dylanwad llais y dysgwyr ar fywyd yr ysgol yn amlwg yn yr hyn a gyflawnwyd gan y disgyblion drwy'r Cyngor Ysgol. Gwnaed penderfyniadau allweddol fel sicrhau ffynnon ddŵr i'r ysgol gyfan ac archebu rhwyd pêl-fasged ar gyfer amser chwarae. Mae aelodau o'r Cyngor Ysgol wedi mynychu un cyfarfod llywodraethol hyd yn hyn.

Mae datblygiad personol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn cydweithio yn effeithiol gyda'i gilydd, gan gynnig cymorth i'r naill a'r llall. Mae ganddynt y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cymryd eu lle o fewn y gymdeithas y maent yn perthyn iddi.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol gyfan yn darparu amrywiaeth eang o gyfleodd i'r disgyblion er mwyn cyfoethogi eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau addysgol diddorol a chreu digwyddiadau ysgogol o fewn yr ysgol ei hun, fel y diwrnod yn ôl mewn hanes.

Mae’r staff yn cynllunio’n fwriadus ar gyfer datblygu’r medrau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cyd-gynllunio’n effeithiol i sicrhau amrediad profiadau a datblygiad yng ngwaith y disgyblion o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn sicrhau cyflawniad da mewn medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Ar y cyfan, mae’r athrawon yn darparu gwaith priodol ar gyfer gallu ac oedran y disgyblion ond nid yw’r arfer hwn wedi treiddio yn llawn ar draws yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y cwricwlwm Cymreig yn gryfder yn yr ysgol hon ac wedi ei gynllunio’n arbennig ac yn naturiol yn yr holl feysydd cwricwlaidd. Rhoddir ystod dda o gyfleoedd i’r disgyblion ysgrifennu yn amrywiol ac ymestynnol, yn enwedig yn y Gymraeg. Mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn mewn cyfathrebu a darllen o ganlyniad i weithgareddau ysgogol a heriol ac mae hyn yn gryfder. Mae Dinasyddiaeth Byd Eang yn cael sylw priodol o fewn yr ysgol, er hynny prin iawn ar hyn o bryd yw’r cyfleoedd i ddatblygu cynaliadwyedd.

**Addysgu: Da**

Yn y gwersi lle gwelir elfennau rhagorol mae’r athrawon yn ysgogi a herio disgyblion drwy gwestiynu effeithiol iawn. Mae’r athrawon yn hoelio ymrwymiad yr holl ddisgyblion drwy’r amser ac maent yn cael eu hysgogi i’r eithaf. Maent yn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o’u targedau er mwyn gwelliant. Defnyddir amrywiaeth o arddulliau addysgu yn effeithiol iawn i ysbrydoli cymhelliant y disgyblion.

Mae’r athrawon yn cynllunio’n effeithiol yn y rhan fwyaf o wersi ac yn ymateb yn briodol i anghenion y disgyblion. Mae’r addysgu da hwn yn ennyn diddordeb ac ymrwymiad y disgyblion. Cyfeirir at ddysgu blaenorol ac fe adeiladir ar y profiadau hyn. Mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o gwestiynu heriol i sicrhau cynnydd y disgyblion ac i wneud iddynt feddwl drostynt eu hunain. Mae’r athrawon yn hybu annibyniaeth y disgyblion mewn sawl agwedd o’r cwricwlwm ac mae gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu’n briodol.

Yn y dosbarthiadau lle nad yw’r addysgu cystal nid yw’r athrawon yn cynllunio yn ddigon manwl ar gyfer ystod gallu’r disgyblion ac nid yw’r gwaith yn ddigon heriol ar gyfer y rhai mwyaf galluog.

Mae ethos gweithgar a hapus ac ymdeimlad o barch yn amlwg yn y dosbarthiadau. Mae’r cymorthyddion dosbarth yn rhoi cefnogaeth dda i’r holl ddisgyblion, ac maent yn cydweithio’n effeithiol gyda’r athrawon dosbarth er mwyn asesu cynnydd y disgyblion. Mae’r marcio yn fanwl ac yn adeiladol. Mae’r sylwadau yn nodi'r hyn sydd ei angen er mwyn gwella ond ar adegau, nid ydynt ddigon penodol ar draws dosbarthiadau. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn weithredol ac mae bron bob disgybl yn ymwybodol o’u targedau.

Mae systemau asesu briodol yn crynhoi cynnydd disgyblion ac fe ddefnyddir y wybodaeth yn effeithiol i ddatblygu’r camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r ysgol yn cynnig gwybodaeth i rieni am gyflawniad a chynnydd eu plant ar ffurf adroddiad blynyddol ac mewn dau gyfarfod ffurfiol. Maent yn datgan fod yr adroddiadau yn eglur ac yn cynnig targedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu gofal arbennig i bob un o'i disgyblion. Mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch ac yn eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan y darparwr bolisïau priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant, sy'n hysbys i'r holl staff. Mae amser cylch yn digwydd yn rheolaidd ar draws dosbarthiadau'r ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion, eu gwerthoedd ac ethos yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hybu ymarferion bywyd iach ac mae wedi derbyn deilen 5 Cynllun Ysgolion Iach. Mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i blant ag anawsterau penodol yn dda. Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd angen cymorth yn gynnar a darperir rhaglenni addas ar eu cyfer. Darperir cymorth ychwanegol i grwpiau penodol o ddisgyblion gydag athrawes arbenigol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ac effeithiol gydag asiantaethau allanol fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r gwasanaeth seicolegol addysg. Cynhelir cyfarfodydd adolygu rheolaidd a gweithredir yn effeithiol ar yr argymhellion a osodir. Mae'r ysgol yn cydymffurfio a'r Cod Ymarfer yn llawn.

Mae'r rhieni yn derbyn adborth cyson ar gynnydd eu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus a chyfeillgar iawn yn bodoli yn yr ysgol. Mae cyflwr a glendid yr ysgol yn dda ac mae arddangosfeydd lliwgar a chroesawus o fewn yr ysgol sy'n ysgogol ac yn atgyfnerthu'r addysgu. Mae'r dosbarthiadau yn lliwgar a chyfforddus a gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i ymateb i anghenion y disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn gwbl hygyrch beth bynnag yw hil, rhyw neu grefydd y disgyblion.

Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfleoedd a hawliau cyfartal ymhob agwedd o waith yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn hyrwyddo ethos cadarnhaol yn yr ysgol. Cyfathrebir ei weledigaeth mewn modd effeithiol yn ystod cyfarfodydd cyson gyda'r staff. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u rôl a chyfrifoldebau traws ysgol ac yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd. Mae gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau a pholisïau priodol. Yn ystod absenoldeb y pennaeth, mae'r pennaeth dros dro wedi mynd ati i'w hadolygu ac wedi sicrhau gwell cysondeb yng ngweithdrefnau'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac mae ganddynt wybodaeth dda ynglŷn â'r ysgol. Maent yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, ond maent yn cydnabod bod angen iddynt ehangu ei rôl fel ffrind beirniadol a chymryd rôl fwy blaenllaw ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn elfen ddatblygol o waith yr ysgol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gydag adnoddau addas ac ysgogol. Datblygir cysylltiadau adeiladol a rheolaidd gydag ysgolion lleol eraill i rannu arfer dda'r Cyfnod Sylfaen. Mae datblygu medrau meddwl y disgyblion ar draws yr ysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol wedi datblygu polisi a phrosesau hunanarfarnu sy'n dylanwadu'n gynyddol ar y Cynllun Datblygu Ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn yn cynnwys adolygiad trylwyr o bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn dueddol o fod yn un disgrifiadol ac yn cydnabod cryfderau'r ysgol, ond nid y meysydd i'w datblygu.

Nid yw'r dystiolaeth sy'n bwydo'r adroddiad hunanarfarnu bob amser yn eglur. Nid yw'r staff na'r llywodraethwyr yn cael y cyfle i ddylanwadu'n ddigonol ar gynnwys yr adroddiad ond bellach maent yn awyddus i ddatblygu'r elfen yma o'u gwaith. Prin yw'r defnydd o ddata perfformiad, gwybodaeth tracio, a thystiolaeth uniongyrchol i gynllunio ar gyfer gwella. Nid oes yna bob amser gysylltiad clir ac amlwg rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol.

Mae trefniadau datblygiad proffesiynol yr ysgol yn darparu cyfleoedd eang ac amrywiol i ddatblygu staff. Mae cysylltiad agos rhwng yr hyfforddiant a chyfrifoldebau staff ond nid oes yna gysylltiad cryf rhwng y gweithgareddau hyn a blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Yn y lleiafrif o sefyllfaoedd gwelir targedau rheoli perfformiad sy'n ddigon heriol i sicrhau gwelliant.

Er bod angen datblygiad pellach mewn prosesau monitro, gweithredwyd yn addawol ar y mwyafrif o argymhellion yr arolwg diwethaf.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r elfen o rwydweithio mewnol. Ar hyn o bryd, nid yw'r gweithgareddau presennol yn effeithio'n ddigonol ar rannu arferion da'r addysgu sy'n bodoli o fewn yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae trefniadau trosglwyddo da yn ei le gyda meithrinfa'r dref a chyfleoedd i'r plant ymweld â'r ysgol o flaen llaw. Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo pwrpasol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd gydag amryw o weithgareddau pontio o safon uchel. Mae gwaith pontio a chymedroli addas yn digwydd yn y pynciau craidd. Ceir cydweithio adeiladol sy'n parhau i ddatblygu'n dda gydag ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned, gydag ychydig o fusnesau lleol yn cefnogi gwaith menter llyfr ryseitiau'r ysgol. Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd ei pherthynas gyda'r gwasanaethau addysg, yr awdurdod lleol a'r heddlu ac mae'n cydweithio'n effeithiol â nhw er mwyn ehangu profiadau'r disgyblion. Mae staff a disgyblion yr ysgol yn elwa o'r cysylltiadau gyda Choleg Meirion Dwyfor a Choleg Iâl, gyda myfyrwyr yn hyfforddi yn yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'i gwaith yn effeithiol. Mae staff yr ysgol wedi cydweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd deniadol ac ysgogol i'r disgyblion ac mae adnoddau eang ac addas yn yr ystafelloedd dosbarth.

Cedwir golwg ofalus gan y corff llywodraethol ar y gyllideb a gwariant yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu'r Ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'i chyllideb i hyrwyddo addysg effeithiol ac yn ddiweddar wedi buddsoddi'n sylweddol mewn offer technoleg gwybodaeth newydd sydd wedi cael effaith bositif ar gyflawniad disgyblion o fewn y maes. Mae safonau'r disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 30 o holiaduron yn ôl ac o fewn bob un ohonynt mae’r rhieni yn datgan eu bod yn fodlon â’r ysgol yn gyffredinol, fod eu plant yn hoffi’r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo’n ddiogel.  Credant hefyd fod ymddygiad y disgyblion yn dda.

Mae’r rhieni oll o’r farn fod yr athrawon yn gweithio’n effeithiol ac yn annog y plant i weithio’n galed.  Maent yn hapus â’r cynnydd wna’r disgyblion a’r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynigir iddynt. Teimlant fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron bob un yn hapus hefo’r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd y disgyblion a’n teimlo’n esmwyth ynglŷn â dod i’r ysgol i ymholi am wybodaeth.

**Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 50 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â’r disgyblion yn ystod yr arolygiad.  Mae’r dysgwyr oll yn datgan eu bod yn hapus, yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol a’u bod yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni.

Dywedant fod yr athrawon yn eu haddysgu’n effeithiol am bwysigrwydd gwybod sut i fod yn iach ac ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae bron bob disgybl o’r farn fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Anwen Griffith | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jano Owen | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |